

Gwerthusiad beirniadol sy'n nodi'r camau addysgu a dysgu nesaf gan ganolbwyntio ar astudiaeth achos o ddysgwr unigol neu grŵp o ddysgwyr, sy'n seiliedig ar astudiaeth achos critigol a arsylwyd.

Y prif ganolbwynt o'r traethawd hon yw ar astudiaeth achos critigol a arsylwyd ac o hyn yn gwerthuso yn feirniadol sy'n nodi'r camau addysgu a dysgu nesaf wrth ganolbwyntio ar astudiaeth achos o ddysgwr unigol. Ond, er mwyn dod i ganlyniad mae rhaid edrych ar wahanol agweddau sy'n ymwneud â'r ysgol, yr astudiaeth achos critigol ei hun, y fethodoleg ac adolygiad llenyddol. Felly, beth yn union yw astudiaeth achos critigol? Astudiaeth achos critigol mewn termau addysgeg yw digwyddiad sydd wedi cael ei arsylwi tu fewn i wers ac yna yn cael ei ymchwilio i mewn i. Yn ôl David Tripp, "...critical incidents are produced by the way we look at a situation: a critical incident is an interpretation of the significance of an event." (2012: pp. 8). Gwelir felly bod achos critigol yn rhywbeth ydym ni fel pobl yn ei weld yn gritigol i'r dysgu ac addysgu sydd yn digwydd yn y dosbarth a'r effaith mae hyn gallu cael ar lwyddiant y disgyblion. Cynnwys y traethawd hwn felly yn nhermau'r astudiaeth achos critigol a arsylwyd yw cyd-destun yr ysgol er mwyn cael portread o gymdeithas mae'r ysgol wedi ei leoli. Yna edrychwyd i mewn i'r fethodoleg, sef gwendidau a chryfderau defnyddio'r dull hwn o arsylwi ac yna ar sut mae'r astudiaeth gritigol o dan sylw yn cysylltu â phedwar pwrpas Donaldson. Bydd yr adolygiad llenyddiaeth yna yn canolbwyntio ar y ffactorau a gall achosi i'r astudiaeth achos beirniadol i ddigwydd ac yna bydd yr adfyfrio yn edrych i mewn i'r camau nesaf a sut i sicrhau dysgu ac addysgu da mewn gwersi.

Mewn ysgol uwchradd 11-19 fe ddaeth yr astudiaeth achos critigol i'r arwyneb wrth arsylwi. Edrychodd yn gyntaf ar bedwar achos critigol (gwelir atodiadau) ond am y traethawd hwn y bydd yn seiliedig ar ddim ond un achos critigol (gwelir atodiad 1). Ni fydd enw'r ysgol neu'r unigolion sy'n cael ei chynnwys yn y traethawd yn dod i'r amlwg i gyd-fynd â chanllawiau BERA (2019), "The confidential and anonymous treatment of participants' data is considered the norm for the conduct of research. Researchers should recognise the entitlement of both institutions and individual participants to privacy, and should accord them their rights to confidentiality and anonymity." (pp. 21, pwynt 40). Oedran y dosbarth a wnaeth arsylwi'r astudiaeth gritigol o dan feirniadaeth oedd dosbarth blwyddyn 9 sydd rhwng yr oedrannau o Undeg tri ac Undeg pedwar. Yn y dosbarth hwn, fel y dywed yn atodiad 1, mae yna 30 o ddisgyblion sydd wedi cael ei setio yn y grŵp uchaf. Mae'r ysgol ei hun yn ysgol ddwyieithog sydd â 1500 o ddisgyblion yn ei fynychu.

Yn ôl *'Fy Ysgol Lleol'* gwelir bod y prydiau bwyd am ddim yn yr ysgol yn uchaf na'r cyfartaledd am Gymru gyda 19.3% o'r disgyblion yn ei chael. (My Local School: 2019). Ynghyd â hyn dywed arolgyiad Estyn am yr ysgol, "Around four per cent of pupils have statements of special educational needs compared with 2.6% for Wales as a whole. Twenty-three per cent of pupils have a special educational need. This figure is higher than the national average of 18.6%." (Estyn 2012: pp 1). Golygir bod y nifer o ddisgyblion sydd a'r angen i help ychwanegol yn ei astudiaethau yn uwch yn yr ysgol hon. Mae hyn yn clymu i mewn â'r astudiaeth gritigol yn y traethawd hwn.

Fel y dywed, mae astudiaeth achos yn chwarae rhan ganolog yn yr astudiaeth hon. Mae yna dwy prif ddull o arsylwi; arsylwi heb gyfrannu ac arsylwi â chyfrannu. Arsylwi â chyfrannu yw pryd mae'r person sy'n arsylwi yn cymryd rhan yn y gweithgareddau sy'n mynd ymlaen o'i flaen. Am yr astudiaeth gritigol hon, fe ddefnyddiwyd arsylwi heb gyfrannu. Esboniodd Ranjit Kumar y dull hon o arsylwi fel, "...as a researcher, do not get involved in the activities of the group but remain a passive observer, watching and listening to its activities and drawing conclusions from this." (Kumar 2014: pp. 174). Gwelir bod hyn yn dod â phersbectif gwahanol ac allanol ar yr achosion critigol a gall dod i fyny.

Ond, mae defnyddio dulliau uchod am astudiaeth achos yn dod â chryfderau a gwendidau. Cryfder gyntaf sydd ar gael yw wrth ddefnyddio astudiaeth gritigol mae'n rhoi'r siawns i athrawon i edrych yn ôl arnynt ac yn ei gadael iddynt ddatblygu strwythur moesegol i ddefnyddio yn y dyfodol, Gwelir bod yn rhoi ffordd ddiogel i athrawon i edrych yn ôl ar gamgymeriadau. Yn ôl Orly Shipira – Lishchinsky, "Critical incident reports can offer a safe and "mistake-forgiving" method whereby both the people who recount the reports and the people who hear them learn from those errors without the risk of harming others (e.g., teachers, pupils, parents)." (Lishchinsky 2011: pp, 649). Mae'n rhoi ffordd ddiogel i athrawon adfyfrio a dysgu o ei phrofiad. Cryfder arall o ddefnyddio arsylwi ac achosion critigol yw ei fod, "They provide insights into other, similar situations and cases, thereby assisting interpretation of other similar cases." (Nisbett & Watt 1984: pp. 79 – 92). Mae yn rhoi canllaw dda i athrawon i weld beth y maent wedi yn gallu fod yn gwneud er mwyn wella ei hymateb i ddigwyddiad tebyg os bydd yn dod i fyny tu fewn i 'r dosbarth. Rhoddir canllaw i athrawon i dyfu yn broffesiynol wrth iddynt adlewyrchu ar yr hyn maent wedi darganfod wrth wneud astudiaeth achos beirniadol.

I fynd yn erbyn hyn, un o'r gwendidau sydd ar gael yw y bydd yn bosib bod y grŵp neu unigolyn sy'n cael ei arsylwi yn newid ei ymddygiad am iddynt fod yn ymwybodol ei fod yn cael ei wyllo. Ynghyd â hyn, gwendid arall sydd i weld mae canlyniad yr arsylwiad yn dibynnu ar yr unigolyn sydd yn ei chynnal. Dywed Cohen, "Informing people of the research might provoke the Hawthorn

... or might disturb the natural behaviour of participants (Oliver, 2003: pp. 53) as they will be conscious of being watched.” (Cohen et al 2011: pp 160). Gall hyn mynd mewn sawl ffordd. Yn yr achos hwn, gan y disgyblion ymddwyn yn well neu’n camymddwyn yn fwy a gall sut mae’r athro yn ymateb i’r hyn newid am iddynt yn ymwybodol ei fod yn cael ei arsylwi. Ynghyd â hyn, gwendid a gall ddod yw ar sut mae’r person wedi ysgrifennu a disgrifio’r achos beirniadol. Gall bod yn bosib i’r bobl sydd yn mynd i ddarllen yr adroddiad adnabod pwy sydd wedi cael ei chynnwys ynddi, “Neither can you fully guarantee that adult participants identities will be fully concealed. It is quite possible that people reading your report might recognise their colleagues or pupils in the description of them or in the things they say.” (Wood & Smith, 2016: pp. 17). Fel mae’r dyfyniad yn esbonio, mae hyn yn fwy tebygol o’r oedolyn sy’n cymryd rhan yn yr asesiad. Mae’r rheswm am hyn yn seiliedig ar y fath o achos critigol sy’n cael ei phigo i fyny yn yr arsylwad. Os yw’r achos critigol yn un syml, megis anghofio ei waith cartref, yna nid yw pwyntio at un disgybl. Ond, os mae’r achos critigol yn esbonio sut mae’r athro wedi delio â’r broblem neu greu achos critigol ei hunain yna bydd hunaniaeth y person yn ymddangos a bydd yn fwy o debygolrwydd bydd ei chyfoedion yn pigo i fyny arnynt. Felly, mae’r dull hon o arsylwi yn dod â chryfderau a gwendidau ond mae ar y cyfan yn ffordd dda wrth adlewyrchu er mwyn datblygu yn broffesiynol.

Gwelir nad yw’r achos critigol (atodiad 1) yn y traethawd hwn yn cysylltu â phedwar pwrpas Donaldson am ei fod ar y rhan fwyaf yn negyddol. Cefndir yr achos beirniadol yw disgybl ac na wnaeth ei waith cartref am sawl wers a fynychwyd yn ystod y dydd. Defnyddiwyd y disgybl hwn pob rheswm a gallu hi feddwl er mwyn esbonio ei diffyg gwneud. Roedd disgyblion wedi ei grwpio fesul y bwrdd yr oedd yn eistedd ac o hyn roedd rhaid iddynt wneud tasg dechreuad ar wybodaeth yr oeddent wedi darganfod fel Gwaith cartref am Kenya. Ni wnaeth y disgybl o dan sylw gwneud hyn ac oherwydd hyn ni oedd yn gallu cymryd rhan yn y dasg. Roedd yna bwrpas clir i’r wers ac roedd y gwaith cartref yn chwarae rhan hanfodol wrth iddynt ddod yn gyfarwydd â nodweddion yr Affrig. Felly, oherwydd hyn nid yw’n cysylltu yn union â phedwar pwrpas Donaldson.

Pedwar pwrpas Donaldson (2015) yw y bydd plant i gyd yn ddysgwyr uchelgeisiol a galluog, yn gyfranwyr mentrus a creadigol, yn ddinasyddion moesegol a gwybodus ac yn olaf yn unigolion iach a hyderus (p.p 29-30). Mae’r achos critigol sy’n cael ei dadansoddi yn un negyddol, wrth i’r disgybl anghofio ei waith cartref, mae’n anodd ei gysylltu â phedwar pwrpas Donaldson. Dangosir pedwar pwrpas hyn disgwyliadau mae Donaldson o addysgeg athrawon yn y cwricwlwm newydd. Nid yw’r disgybl o dan sylw yn cyd-fynd â’r disgwyliadau hyn sy’n cael ei chyflwyno gan Donaldson yn ei chanllaw am gwricwlwm newydd. Wrth ystyried y disgybl dan sylw yn yr achos beirniadol hwn bydd rhaid i athrawon ceisio i wneud yn bosib i’r disgybl i anelu a chyrraedd y

disgwyliadau hyn. Dywed Donaldson yn *Successful Futures*, "...we further propose that the four purposes of the curriculum be elaborated in terms of their key characteristics that demonstrate the purpose through practice and should be developed through the curriculum." (2015: p.p 29). Bydd rhaid ychwanegu hyn i mewn i'r addysgeg er mwyn i'r disgybl cyrraedd ei wir botensial, "Together, we are all responsible for ensuring that every young person in Wales has an equal opportunity to reach the highest standards." (Llywodraeth Cymry, Addysg Cymru 2017: pp.2). Mae'n bwysig i bob disgybl cael yr un cyfleodd i dyfu ac i lwyddo yn ei addysg. Er enghraifft mae rhai bod pedagogaeth dda ar gael a gall fod rhesymau gwahanol du ôl i pam nad yw'r gwaith cartref yn cael ei chyfleu. Oherwydd hyn mae rhaid i ysgolion neud yn sicr bod pob angen yn cael ei chwrrdd fel cael mynediad i'r we a llefydd i ddisgyblion gwneud ei gwaith cartref. Er mwyn cysylltu'r achos beirniadol hyn â'r pwrpas o'r disgybl yn dod yn ddysgwyr uchelgeisiol a galluog bydd rhaid i'r disgybl dechrau gwneud ymchwil ei hunain, rhoi ei hunain safonau uchel ac i adeiladu gwybodaeth. Nid yw'r disgybl yn gwneud hyn trwy beidio neud ei gwaith cartref. Mae'r achos beirniadol hefyd yn mynd yn groes i'r ail bwrpas sef cyfranwyr mentrus a creadigol. Gellir dadlau hyn oherwydd mae'r disgybl yn dangos diffyg ymdrech i ddysgu wrth beidio gwneud ei gwaith cartref. Rheswm am hyn gall bod y disgybl yn sownd mewn meddylfryd sbesiffig ac yn gwrthod gwneud ymdrech (Dweck 2015: pp.1). Gall sawl peth bod tu ol i hyn fel diffyg hyder yn ei waith academiaidd. Felly, nad yw'r disgybl yn cwrdd a gofynion y pedwar pwrpas ond mae yn lle i weithio ar yr hyn.

Gall fod amryw o resymau pam nad oedd y disgybl dan sylw wedi cyfleu ei waith cartref yn ei wersi. Mae nifer o feysydd ar gael ar gyfer ymchwil posib i mewn i hwn. Enghreifftiau i drafod yn yr adran hon yw lles y disgybl, ei ymddygiad o gwmpas ffrindiau a meddylfryd twf y disgybl. Yn gyntaf, mae gall lles y disgybl wedi cael ei effeithio a gall hyn achosi amryw o broblemau wrth iddynt gyflawni gwaith. Mae tua phob un mewn naw o blant yn dioddef o afiechyd meddyliol (Mental Health Foundation 2018). Wrth edrych ar hyn, mae lles disgyblion yn nawr yn flaenoriaeth i sawl ysgol. Er i hyn, "Teachers also reported a global lack of experience and training for supporting children's mental health needs." (Reinke et al 2011: pp.1). Heb yr hyn nid yw'n bosib i staff yr ysgol gwybod sut i ddelio â disgybl sydd â'r anghenion hyn ac i ddilyn o hyn bydd posibilrwydd uchel ni fydd y disgybl ei hun yn cymryd unrhyw ddiddordeb yn ei waith neu wneud ei waith cartref. Er i hyn, mae'n bosib ni fydd ysgolion yn gallu adnabod sawl disgybl sy'n dioddef o afiechyd lles am iddo sawl cadw yn dawel. Mae lles meddyliol yn cael effaith fawr ar awydd disgyblion i gyflwyno gwaith. Yn y blynyddoedd diwethaf mae ysgolion wedi angen addasu i'r niferoedd o ddisgyblion sydd wedi datblygu afiechyd meddyliol er mwyn ei helpu i gyrraedd ei wir botensial yn ysgol ac yn y pendraw y tu allan.

I gyd-fyn â'r uchod mae ymddygiad y disgybl o amgylch ei ffrindiau a chyfoedion yn y dosbarth yn gallu cael effaith ar yr awydd i beidio rhoi gwaith cartref i mewn. Esboniodd Douglas Nangle, "...youngsters experience social and emotional difficulties that do not meet symptom criteria for a disorder but cause considerable distress and impairment in functioning." (2006: pp. 165). Er nad yw pob disgybl yn cael ei effeithio gan afiechyd meddyliol neu anghenion ychwanegol mae'n bosib bod sawl yn dal ei weld yn anodd wrth edrych ar ddelio â'i emosiynau a hefyd agweddau cymdeithasol yr ysgol. Yn y pendraw, mae hyn yn gallu effeithio ar safon a faint o waith mae'r disgybl yn gwneud tu fewn yr ysgol a'r tu allan. Mae yna sawl rheswm am hyn. "... the overall emotional environment can have a significant impact on children's motivation to learn and subsequent achievement." (Leung 2006: pp. 57). Yn ôl Leung felly, mae'n bosib i ddisgyblion sy'n cael problemau yn ysgol â gwneud ffrindiau yn gallu cael effaith negatif ar y gwaith academiaidd mae disgyblion yn cynhyrchu neu'n gwneud. Mae Vandeell a Hembree yn atgyfnerthu hon gan ddweud bod diffyg ffrindiau gan ddisgyblion yn gallu effeithio ar ei hyder ac oherwydd hyn mae'n arwain at broblemau uniongyrchol a gall effeithio ar ei lles a'i waith tu fewn a thu allan i'r dosbarth (1994). Gall amryw o wahanol resymau ei fod tu ôl i hyn. Mae disgyblion ifanc yn ceisio byw i fyny i beth maen nhw'n credu mai ei chyfoedion eisiau nhw i fod. Gwelir bod sawl yn taflu portread gwahanol o'i hyn er mwyn ffitio i mewn a chreu ffrindiau. Gall hyn ddod o beidio gwneud y gwaith maent ei fod neu wrth newid ei ymddygiad. Yna mae Yugar a Shapiro yn nodi bod y plant sy'n cael ei weld yn negyddol gan ei chyfoedion yw'r rhai sy'n cael ei arddodwyd gan athrawon sy'n ei chael hi'n anodd â'i waith (2001). Er mwyn datrys hyn, mae nifer yn ceisio gwrthio'r syniad o ddefnyddio 'sociograms'. Wrth ddefnyddio'r rhain mae Leung yn dweud, "Ultimately, we believe that sociogram data can supplement teacher observations to help establish the type of classrooms that maximally supports student learning." (pp. 61). Gellir cael effaith positif ar y ffordd mae'r athro yn addysgu yn ei amgylchedd dysgu ac yn y pendraw yn rhoi'r i'r disgyblion cyflawni ei wir botensial ac i gyrraedd pedwar pwrpas Donaldson.

Meddylfryd twf y disgybl yw'r maes arall i gael ei ymdrin ag yn nhermau'r ymchwil ar yr astudiaeth achos critigol. Mae yna sawl adran i hyn, ond yr un fwyaf i weld yw'r dylanwad sydd i gael gan rieni. Nid yw disgyblion sydd ag rhieni ac na wnaeth yn dda yn ysgol ei hunain yr awydd i geisio gwellhau bywyd ei hun trwy wneud yn dda yn ysgol. Os mae'r meddylfryd hyn gan ddisgyblion yn ysgol y mae'n bosib nad oes unrhyw wthiad personol ganddynt i geisio llwyddo gan gyflwyno gwaith o safon ac i'w potensial. Er i hyn, mae yna amryw o resymau pam mae'n bosib nad yw wthiad o'r rhieni yna ac oherwydd hyn mae'r disgyblion yn ei weld yn anodd torri i ffordd o feddylfryd sydd ganddynt am ei lwyddiant academiaidd. Gwelir hyn yn bennaf wrth edrych

ar hierarchaeth y gymdeithas. Mae'n iawn i awgrymu bod y disgyblion sy'n dod o ddosbarth is y gymdeithas mae gwrthiad y rhiant yn is i gymharu â disgybl o ddosbarth mwy uwch. Dywed Desforges, "Material deprivation had a strong, negative effect on parental involvement. As material deprivation worsened, parental involvement decreased markedly. Material deprivation was notably worse for families in the lower social classes." (2003: pp. 18). Y llai o adnoddau sydd i gael yn ei thai dre'r llai tebygol y bydd disgyblion yn cael ei annog neu'r awydd i wneud ei waith am ysgol. Gwelir bod y rhieni sy'n cael y dylanwad fwyaf ar awydd y disgybl i lwyddo, "Parental – role construction for involvement in children's education reflects parents' expectations and beliefs..." (Hoover-Dempsey et al 2001: pp. 201). Fel arfer mae disgyblion yn edrych i lan i rieni i weld y galle'n nhw ei hunain lwyddo yn lle ceisio gwneud y gorau maent ei gallu a hefyd mae'r disgyblion yn dysgu wrthyn, "Parents often serve as salient models from whom children learn." (Hoover-Dempsey et al 2001: pp.204). Mae'r awydd y rhieni wrth feddwl am waith yn cael dylanwad mawr ar y faint y bydd y disgybl ei hun yn gwneud. Gall hyn awgrymu maes arall wrth feddwl am yr astudiaeth achos critigol.

Mae gwerthuso ac adfyfrio ar y camau nesaf a'r achos critigol yn bwysig wrth iddo fod yn rhan o'r safonau proffesiynol sydd i gael yng Nghymru, "Simulation and reflection are widely recognized as educational methods that can promote learning about professional practice." (Husebø et al 2015: pp. 368). Y safon bennaf y mae'r achos critigol hon yn cysylltu ag yw pedagogaeth. Mae rhaid i fod addysgwr sicrhau'r bod yn datblygu a newid ei addysgu er mwyn gwneud yn siŵr bod pob disgybl yn cael yr addysg gorau iddyn nhw. Wrth adfyfrio ar yr hyn mae'n annog athrawon i wella ei waith a'r ffordd y maent yn ymateb i sefyllfaoedd gwahanol ac yn well. Yn syml, adfyfrio yw i, "...consciously to review, describe, analyse and evaluate their past practice with a view to gaining insight to improve future practice." (Finlay 2008: pp. 3). Mae'r Model Beirniad Wedi Adfyfrio (atodiad 1B) yn gyd fynd â 'Gibbs' reflective cycle' am iddo awgrymu i adfyfrio ar ôl i'r profiad digwydd. Mae Gibbs yn edrych ar chwe rhan i adfyfrio sef i ddisgrifio, teimladau, cofio a deall, gwerthuso a dadansoddi, casgliadau ac yna'r camau gweithredu.

Wrth ddilyn Gibbs' reflective cycle byddaf yn adfyfrio a gwerthuso ar y camau nesaf o'r astudiaeth critigol. Yn gyntaf, byddaf yn siarad ar sut wnaeth yr astudiaeth critigol gwneud iddo i deimlo. Teimlaf yn ystod y digwyddiad y bod disgybl a wnaeth peidio gwneud ei gwaith cartref fel rhywbeth sy'n digwydd yn rheolaidd yn ysgol. Ni welir fel ei fod yn ddigwyddiad hollol ddieithr. Fe wnaeth y disgybl anghofio i wneud ei waith cartref a oedd yn berthnasol am y gwaith yr oedd yn mynd i wneud yn y wers. Felly, am nad oedd y disgybl wedi cyflwyno ei gwaith cartref yr oedd hyn

yn ei rhwystro rhag cymryd rhan yn y dasg gyntaf. Wrth adfyfrio ar yr hyn a wnaeth digwydd nesaf byddaf yn bersonol yn cadw rhai agweddau'r un fath. Siaradodd yr athro a'r disgybl ar ddiwedd y wers er mwyn darganfod pam na wnaeth gyflwyno ei gwaith cartref ac ni alwodd allan yr achos i'r dosbarth cyfan. Gwelir bod hyn yn strategaeth effeithiol er mwyn darganfod os oedd unrhyw broblemau i gael â'i dealltwriaeth neu rhai mwy allanol. Er i hyn gall y camau nesaf, er mwyn sicrhau addysgu a dysgu effeithiol gellir wedi gofyn i'r disgybl sydd wrth ei ymyl er mwyn rhannu rhai o'i waith er mwyn galluogi y gall y disgybl wedi cymryd rhan yn y gweithgaredd cychwynnol. Hefyd, gellir wedi gofyn i'r disgybl yn gyfrinachol ar ddechrau'r wers os oedd wedi ei ddeall er mwyn galluogi y bydd weddill ei fod yn gallu deall gweddill y wers a oedd yn seiliedig ar y gwaith cartref. Ynghyd â hyn yr oedd opsiwn i roi siawns i'r disgybl dal i fyny a'r gwaith cartref wrth roi dyddiad cau arall iddi gwblhau a gorffen y gwaith cartref er iddi dal i fyny a dim cwmpo yn ôl yn y dosbarth. Bydd yn bosib i'r datrysiadau uchod cyflwyno dysgu ac addysgu da i'r disgybl.

Er mwyn grynhoi, fel y dywed uchod y mae'r dull hon o ddefnyddio astudiaeth achos beirniadol er mwyn gwellhau dysgu ac addysgu effeithiol yn cysylltu â'r Safonau Proffesiynol sy'n mew'n chwarae ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth. Gwelir bod yr hyn yn cryfhau dysgu ac addysgu da yn ysgolion. Yn ystod y traethawd hwn fe edrychwn ar sawl peth i ymwneud â'r astudiaeth achos critigol sydd o dan gwestiwn. Wrth wneud yr hon mae wedi fy ngalluogi iddo i i weld sut byddaf yn delio â digwyddiad rheolaidd sy'n digwydd yn ysgol mew'n ffordd broffesiynol ac effeithiol. Edrychwn i mew'n i'r ysgol ei hunain a'r ystadegau sydd i gael megis brydion fwyd am ddim a'r effaith y gall hyn wedi cael ar y disgyblion sy'n mynychu'r ysgol a'r cefndir y gymdeithas y mae wedi ei leoli. Ynghyd â hyn, fe wnaeth i edrych ar y fethodoleg tu ôl i fy arsylwi a'r rhan fe wnaeth i chwarae wrth ei gwneud. Gwelir bod sawl cryfder a gwendid i gael wrth arsylwi ei hunain ac oherwydd hyn yr oedd rhaid cymryd yr hyn fe wnes i ddarganfod i mew'n i ystyriaeth a'r effaith posib a gall y traethawd hwn i gael ar addysgu a dysgu da yn y dyfodol. Wrth wneud hyn, gwelir nad oedd yn bosib iddo gysylltu â phedwar pwrpas Donaldson ac oherwydd hyn gwelir y pethau y bydd rhaid rhoi i mew'n i chwarae er mwyn sicrhau bod pob disgybl yn cyrraedd yr hyn a ysgrifennodd yn *Successful Futures* (2015). Fe wnaeth yr adolygiad llenyddiaeth fy ngalluogi i i ystyried y ffactorau posib a gall wedi cymryd rhan yn y rhesymau tu ôl i'r astudiaeth gritigol a chyflwynwyd a'r pwysigrwydd o adnabod y disgyblion rydych yn addysgu a'i chefnidir. Ac yn olaf roedd yr adfyfrio a'r camau nesaf gan ddefnyddio dull Gibbs wedi rhoi golau ar yr astudiaeth a'r datrysiadau posib sydd i gael wrth ddelio â'r hyn a wnaeth digwydd. Felly, i orffen gwelaf fod yr hyn uchod yn cysylltu â Safonau Proffesiynol ac yn galluogi i ddysgu ac addysgu da i ddigwydd.

Atodaidau

Atodiad 1.



Yr Athrofa
Addysg a'r Dyniaethau
Education and Humanities

NODIADAU ARSYLWI / MAES

(Cwestiynau wedi eu haddasu o Fletcher Wood (2016))

Dyddiad:	26/09/19
Manylion y wers:	• Blwyddyn 4 • 30 disgybl • Set Gwydd (2) • 60 min • Daeu'r ydychi • 1 awr
Diwylliant ar lawr dosbarth (Ydy'r myfyrwyr yn canolbwyntio ar ddysgu?)	• Byddiau wedi grwpio • Dosbarth yn newid llokiad pob wers
Amcanion (Oes pwrpas clir i'r wers? Sut mae gweithgareddau'r wers yn hyrwyddo'r pwrpas hwnnw?)	• Pwrpas clir i'w rhoi ar y bardd • Adnabod nodweddion Africa • Defnyddio atlas i ateb datganiadau / gwneud rhai ei hun
Cyfarwyddyd (Ydy'r myfyrwyr yn glir am beth maen nhw'n ei wneud a sut i'w wneud yn dda?)	• Un glir wrth esbonio y dangos gan gwneud eiddo • Myfyrwyr yn gwybod yn union beth i'w gwneud • Cyflwyniad y wers yn eithaf bys
Mynediad a her (Ydy pob myfyriwr yn gallu dilyn y wers? A gaiff pob myfyriwr ei herio?)	• Digonedd o her wrth defnyddio gwahanol fapiau o Africa • Yn dilyn wrth iddynt creu datganiadau ei hun
Asesu Sut mae'r athro yn asesu dealltwriaeth myfyrwyr cyn, yn ystod ac ar ôl y wers? Sut y defnyddir hyn wrth addysgu?	• Cwestiynau - dewis a dethol trwy'r wers • Cael disgyblion i ddweud beth oedd ei datganiadau - osod ei ddechrau
Manylebau / Achosion Beirniadol Oes adegau ac enghreifftiau trawiadol y byddai'n ddefnyddiol eu trafod?	• Merch yn taflu gwlud nod • Merch yn wedi anghyho gwau cartref - digwydd yn cyson • Bachgen yn chwarae efo 'polly pocket' wrth i'r athrawes cwrdd • Dim digon o le yn yr ystafell

Atodiad 1.B


Prifysgol Cymru
 University of Wales
 Yr Athrofa
 Addysg a Phennaethol
 Education and Humanities

Model Beirniad Wedi Adfyfyrio (BWA) Assisted Reflective Conclusions (ARC) Model

Dyddiad/Date: 26/09/19

Digwyddiad critigol (Ffocws)/Critical incident (focus): Merch wedi anghofio ei gwaith carref.

Profiad/ Experience	
Teimladau/ Feelings Beth yw eich teimladau ynghylch y profiad? "What are your feelings regarding the experience?"	Teimlaf bod y profiad yn newnweidiadol.
Cofio a Deall/ Remember and Understand "Ailwch chi restru elfennau'r achos yng nghyd-destun y dysgu?" "Can you list the aspects of the incident in the context of learning?"	Fe wnaeth y ferch anghofio gwneud ei gwaith carref a oedd yn bersonol am y daog a oedd yn cael ei gyflwyno. Roedd hi yn rhwystr iddi hi wrth cynhyrdd rhan newn addysgu. O siaradodd yr athrawes â hi ar y diwedd.
Gwerthuso a dadansoddi/ Evaluate and analyse "Beth y gellid ei gadw yr un fath i sicrhau addysgu a dysgu effeithiol yn y dyfodol?" "What could be kept the same to ensure effective teaching and learning in the future?"	I gadw yr un fath er mwyn sicrhau addysgu a dysgu effeithiol gellir cadw yr aspegi o siarad â'r disgybl ar y diwedd i ddarganfydd rhwystrau.
Casgliadau a chymau gweithredu/ Conclusions and actions "Beth yw eich atebion posibl i'r mater a nodwyd?" "Beth y gellid ei wneud nesaf?" "What are your possible solutions to the issue identified?" "What could be done next?"	Er mwyn i ddatrys y problem hon gellir gofyn i disgybl arall i rhannu peth o waith nhw. Ynghylch â hi, gellir ofyn i'r disgybl os oeddent wedi deall y gwaith ac esbonio os nad oeddent.

Y profiad newydd / Transformed experience

Atodiad 2


University of Wales
 Trinity Saint David

Yr Athrofa
 Addysg a'r Dyniaethau
 Education and Humanities

NODIADAU ARSYLWI / MAES

(Cwestiynau wedi eu haddasu o Fletcher Wood (2016))

Dyddiad: 26/09/19

Manylion y wers:
 • Blwyddyn 9. • Dim cynorthwydd • Mathemateg
 • Set: Glas (2). • 1 awr. • 25 Disgybl

Diwylliant ar lawr dosbarth
 (Ydy'r myfyrwyr yn canolbwyntio ar ddysgu?)
 • Siap "u" ac un fach yn o flaen. • Disgyblion yn canolbwyntio ar y tasg ynghyd â'r tasg eychwynol - 10 mun tasg ychwynol - Cwestiynau y wers ar y tasg arall

Amcanion
 (Oes pwrpas clir i'r wers? Sut mae gweithgareddau'r wers yn hyrwyddo'r pwrpas hwnnw?)
 • Pwrpas y wers oedd i adolygu a gweithiau ei deallu - srwydd o algebra.
 • Rhaid ymuno y swm a'r atebion i greu siap diamwnt.
 • Yn dangos ymwybyddiaeth o'r dull.

Cyfarwyddyd
 (Ydy'r myfyrwyr yn glir am beth maen nhw'n ei wneud a sut i'w wneud yn dda?)
 • Esboniad da o'r darg. • Disgyblion yn ymwybodol ar beth i gwneud ac sut i'w gwneud yn dda.

Mynediad a her
 (Ydy pob myfyriwr yn gallu dilyn y wers? A gaiff pob myfyriwr ei herio?)
 • Her digonedd a fferus rhai yn ei weld yn heriol iawn.
 • Dim tardgau emysryniol neu gwahanuadethol am y dosbarth.

Asesu
 Sut mae'r athro yn asesu dealltwriaeth myfyrwyr cyn, yn ystod ac ar ôl y wers? Sut y defnyddir hyn wrth addysgu?
 • Asesu trwy ofyn cwestiynau ar y dechrau.
 • Yn ystod - ar sut mae'r diamwnt yn edrych cerddid o gwmpas.

Manylebau / Achosion Beirniadol
 Oes adegau ac enghreifftiau trawiadol y byddai'n ddefnyddiol eu trafod?
 • Merch yn hysgu i'r wers.
 • Siarad Saesneg yn gwers sy'n cael ei rhoi trwy y Gymraeg.
 • Annog camgymmeriadau.
 • Dim dargen o dallenau.
 • Klaw i fyny i ddi.
 • Merch yn codi i fyny gaul sylw yr athrawes.
 • Yr un pŵl sy'n golygu.
 • Lledwys allan o amodau gwblhau i'w tasg.

Atodiad 2.B

Prifysgol Cymru
University of Wales
Treva Nant-y-Grange

Yr Athrofa
School of Education
Education and Humanities

Model Beirniad Wedi Adfyfyrio (BWA)
Assisted Reflective Conclusions (ARC) Model

Dyddiad/Date: 26/09/19

Digwyddiad critigol (Ffocws)/Critical incident (focus): Siarad Saesneg nwmn gwers cyfrwng
Cymraeg


Profiad/ Experience	
Teimladau/ Feelings Beth yw eich teimladau ynghylch y profiad? "What are your feelings regarding the experience?"	Ynghylch y profiad teimlaf y bod yr achos critigol yma yn digwydd nwmn sawl gwers yn ysgol Cymraeg.
Cofio a Deall/ Remember and Understand "Atwch chi restru elfennau'r achos yng nghyd-destun y dysgu?" "Can you list the aspects of the incident in the context of learning?"	Roedd y disgyblion yn siarad Saesneg i'w gilydd yn ystod ei gwaith ac ar adrodd i'r athrawes.
Gwerthuso a dadansoddi/ Evaluate and analyse "Beth y gellid ei gadw yr un fath i sicrhau addysgu a dysgu effeithiol yn y dyfodol?" "What could be kept the same to ensure effective teaching and learning in the future?"	Fe wnaeth yr athrawes gwirio'r disgyblion pan yr oeddent yn dechrau i siarad Saesneg iddi hi.
Casgliadau a chymau gweithredu/ Conclusions and actions "Beth yw eich atebion posibl i'r mater a nodwyd?" "Beth y gellid ei wneud nesaf?" "What are your possible solutions to the issue identified?" "What could be done next?"	Atebion posibl i'r mater a nodwyd yw i atgeifio y disgyblion ynglyn â polisi yr ysgol. Hefyd, gellir gwneud rheol dosbarth bod rhaid siarad Cymraeg a chreu aymhellion er mwyn annog disgyblion i siarad y iaith yn y dosbarth.

Y profiad newydd / Transformed experience

Atodiad 3.

 Yr Athrofa Addysg a'r Dyniaethau Education and Humanities	Yr Athrofa Addysg a'r Dyniaethau Education and Humanities
NODIADAU ARSYLWI / MAES (Cwestiynau wedi eu haddasu o Fletcher Wood (2016))	
Dyddiad: 02/10/19	
Manylion y wers: • Blwyddyn 4 • Sef. Gwyrdd (1) • 31 disgybl	
Diwylliant ar lawr dosbarth (Ydy'r myfyrwyr yn canolbwyntio ar ddyddu?) • Drosiau mewn rheol • Rhyddodau oedd ei llyfr a gwaith cyn • Rheolaeth yn anodd - Var of curio	
Amcanion (Oes pwrpas clir i'r wers? Sut mae gweithgareddau'r wers yn hyrwyddo'r pwrpas hwnnw?) • Nid oedd pwrpas clir i'r wers am oedd rhaid i'r athrawes ei newid am waith sawl gdael • Gweithgaredd oedd i sgwrsio mewn grŵpiau bach am dopig Rwa- to am TGAU	
Cyfarwyddyd (Ydy'r myfyrwyr yn glir am beth maen nhw'n ei wneud a sut i'w wneud yn dda?) • Esthono'r ddaog yn dda wrth gwneud esampol a un disgybl	
Mynediad a her (Ydy pob myfyrwr yn gallu dilyn y wers? A gaiff pob myfyrwr ei herio?) • Her wrth iddynt caisio gmateb i'w gilydd mewn ffordd synhwyro i	
Asesu Sut mae'r athro yn asesu dealltwriaeth myfyrwyr cyn, yn ystod ac ar ôl y wers? Sut y defnyddir hyn wrth addysgu? • Asesu trwy gorando i lawr ar gyfarfedydd ac yn caisio helpu'r sgwrs i llo	
Manylebau / Achosion Beirniadol Oes adegau ac enghreifftiau trawiadol y byddai'n ddefnyddiol eu trafod? • Bachgen yn chysgaru • Murchid yn gadael yn gynnar i fynd i chwarae hosi - hanner y dosbarth • Bechgyn yn chwarae elfo beted o ddŵr • Bechgyn yn chwariu trwy gydol y wers ac wrth siarad am dopig dafael • Bechgyn yn gweiddi allan i adeb cwestiynau	

Atodiad 3.B

 Yr Athrofa Adding to the world Education and Humanities	
Model Beirniad Wedi Adfyfyrio (BWA) Assisted Reflective Conclusions (ARC) Model	
Dyddiad/Date: 02/10/19	
Digwyddiad critigol (Effocus)/Critical incident (focus): Bechgyn yn chwertun ^{trwm} gydol	
Profiad/ Experience	
Teimladau/ Feelings Beth yw eich teimladau ynghylch y profiad? "What are your feelings regarding the experience?"	O rhan hyn, teimlaf ei fod yn ymharu â'r addysgu weithll y dosbarth os yw'n gŵpan.
Cofio a Deall/ Remember and Understand "Allwch chi restru elfennau'r achos yng nghyd-destun y dysgu?" "Can you list the aspects of the incident in the context of learning?"	Roedd y chwertun aysen gan y bechgyn yn ystod trafodaeth ar fater difrifol yn effeithio ar aed dysgu nhw ar disgyblion o'r amgylch.
Gwerthuso a dadansoddi/ Evaluate and analyse "Beth y gallid ei gadw yr un fath i sicrhau addysgu a dysgu effeithiol yn y dyfodol?" "What could be kept the same to ensure effective teaching and learning in the future?"	Gellir cadw y defnydd o 'class charts' er mwyn sicrhau addysgu a dysgu effeithiol am iddo gadw ymddygiad rhai disgyblion i lawr.
Casgliadau a chamau gweithredu/ Conclusions and actions "Beth yw eich atebion posibl i'r mater a nodwyd?" "Beth y gallid ei wneud nesaf?" "What are your possible solutions to the issue identified?" "What could be done next?"	Atebion posibl i'r mater a nodwyd ac beth gellir gwneud nesaf yw i wahanu y bechgyn i ochrau arall o'r dosbarth er mwyn ceisio lawelu y chwertun.
Y profiad newydd / Transformed experience	

Atodiad 4.

 Prifysgol Cymru
Y Ddeddf Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Addysg a'r Dyniaethau
Education and Humanities

NODIADAU ARSYLWI / MAES
(Cwestiynau wedi eu haddasu o Fletcher Wood (2016))

Dyddiad: 02/10/19

Manylion y wers:

- Blwyddyn 4 - 1 awr
- Set 10-12 - Technoleg Gywybodaeth
- 30 disgybl

Diwylliant ar lawr dosbarth
(Ydy'r myfyrwyr yn canolbwyntio ar ddysgu?)

- Ddysgu wrth ymuno â grŵpiau i gwnedd cylchoedd bach.
- Cyflwyniad a chynhyrdd.
- Arhogan peth newydd o ddysgu.

Amcanton
(Oes pwrpas clir i'r wers? Sut mae gweithgareddau'r wers yn hyrwyddo'r pwrpas hwnnw?)

- Arhogan clir i'r wers sef i sut i gwnedd eich hunaniaeth yn ddiogel a'r we.
- Gweithgaredd i ymchwilio ei hun a gweld os mae unrhyw beth yn dod i'r afael ac i edrych ar ffug broffil, gweld beth mae'r person wedi gwneud yn ddiogel.

Cyfarwyddyd
(Ydy'r myfyrwyr yn glir am beth maen nhw'n ei wneud a sut i'w wneud yn dda?)

- Esboniad drwyddol o'r dda.
- Yn awybodol o beth yr oedd angen iddynt gwneud i wneud yn dda.

Mynediad a her
(Ydy pob myfyrwr yn gallu dilyn y wers? A gaiff pob myfyrwr ei herio?)

- I rhai myfyrwyr dim digon o her.
- Gallu dilyn y wers.
- Dim ffordd i'w gyswll.

Asesu
Sut mae'r athro yn asesu dealltwriaeth myfyrwyr cyn, yn ystod ac ar ôl y wers? Sut y defnyddir hyn wrth addysgu?

- Asesu trwy nwynd o gwmpos ac yn golyn i ddisgyblion yn unigol neu fel grŵp.

Manylbau / Achosion Beirniadol
Oes adegau ac enghreifftiau trawiadol y byddai'n ddefnyddiol eu trafod?

- Disgyblion yn siarad dros ei gilydd.
- Cyflwyniad heb llygaden / dim yn gweithio.
- Un bachgen yn gwrddio ei amser yn edrych am ei hun ar Gwgl, yn ddiogel y rhyngwlad a rhoddi.
- Un merch heb ddiogelwch ac yn rhoi ei phen ar y bwrdd - caisio.
- Rhedio pob eiddo i beidio gwneud y gwaith.
- Un bachgen sydd byth yn gwneud beth mae fod i'w gwneud yn dda.

Atodiad 4.B


Prifysgol Cymru
 University of Wales
 Prifysgol Cymru

Yr Athrofa
 School of Education and Humanities

Model Beirniad Wedi Adfyfyrio (BWA) Assisted Reflective Conclusions (ARC) Model

Dyddiad/Date: 02/10/19

Digwyddiad critigol (Ffocws)/Critical incident (focus): Merch yn ceisio ffeindio pob argwrthedd beidio gwneud y gwaith

Profiad/ Experience	
Teimladau/ Feelings Beth yw eich teimladau ynghylch y profiad? "What are your feelings regarding the experience?"	Teimlaf y bod yn profiad ymwybodol a gellir delio â hwnnw sawl ffordd.
Cofio a Deall/ Remember and Understand "Allwch chi restru elfennau'r achos yng nghyd-destun y dysgu?" "Can you list the aspects of the incident in the context of learning?"	Nid oedd y ferch yn dysgu wrth beidio gwneud y gwaith ac oherwydd hyn yr oedd yn ymharu ar yr athrawes i geisio dysgu gweddill y wers.
Gwerthuso a dadansoddi/ Evaluate and analyse "Beth y gellid ei godw yr un fath i sicrhau addysgu a dysgu effeithiol yn y dyfodol?" "What could be kept the same to ensure effective teaching and learning in the future?"	~~Gall oheros y gwaith yr un peth ead nesaf~~
Casgliadau a chymau gweithredu/ Conclusions and actions "Beth yw eich atebion posibl i'r mater a nodwyd?" "Beth y gellid ei wneud nesaf?" "What are your possible solutions to the issue identified?" "What could be done next?"	Er mwyn ateb y mater hon gellir cymryd y disgybl i un ochr i siarad â hi unwaith mae'n destarh i gyd ar ddeg. Helyd, mae'n posib nid oedd y disgybl yn gweld bod y tasg yn hysgu digon heriol neu'r rhy heriol ac y cam nesaf bydd i addaau y waith am disgyblion fel hyn.
Y profiad newydd / Transformed experience	

Llyfryddiaeth

Brookfield, S (1998) 'Critically Reflective Practice' *The Journal of Continuing Education in the Health Professions* Vol, 18 pp 197 – 205.

Desforjes, C & Abouchaar, A. *The Impact of Parental Involvement, Parental Support and Family Education on Pupil Achievement and Adjustment: A Literature Review*. Queen's Printer, 2003.

Dweck, C (2015) 'Carol Dweck Revisits the 'Growth Mindset'.' *Education week* sept 23rd.

Finlay, Linda (2008) Reflecting on 'Reflective Practice' Practice based Professional Learning center.

Gibbs, G (1988). 'Learning by doing. A guide to teaching and learning methods.' *London: Further Education Unit at Oxford Polytechnic*.

<http://mylocalschool.gov.wales/School/6694029?lang=en> - Accessed on 20/10/2019

<https://hwb.gov.wales/professional-development/professional-standards> - Accessed on 25/10/2019

<https://www.estyn.gov.wales/provider/6694029> - Accessed on 20/10/2019

<https://www.mentalhealth.org.uk/blog/what-new-statistics-show-about-childrens-mental-health> - Accessed on 25/10/2019

Husebø, S. E., O'Regan, S., & Nestel, D. (2015, August). 'Reflective practice and its role in simulation.' *Clinical Simulation in Nursing*, 11(8), 368-375.

Kathleen V. Hoover-Dempsey , Angela C. Battiato , Joan M. T. Walker , Richard P. Reed , Jennifer M. DeJong & Kathleen P. Jones (2001) 'Parental Involvement in Homework' *Educational Psychologist*, 36:3, 195-209,

Khem, J. (2018) 'Critical Incidents for Teachers' Professional Development.' *Journal of NELTA Surkhet*. Vol. 5.

Krull, E & Oras, K & Pikksaar, E. 'Promoting student teachers' lesson analysis and observation skills by using Gangé's model of an instructional unit.' *Journal of Education for Teaching: International Research and pedagogy*. Routledge, 2010. 36:2 197-210

Kumar, R. (2014) *Research Methodology, Fourth ed*. London: SAGE.

Leung, B and Silbering, J. 'Using Sociograms to identify Social Status in the Classroom.' *Loyola Marymount University, The California School Psychologist*, Voll 11, pp. 57 – 61, 2006.

Llywodraeth Cymru, Addysg Cymru. (2019) A Guide to Curriculum for Wales 2022. Draft Curriculum for Wales 2022. <https://hwb.gov.wales/draft-curriculum-for-wales-2022/a-guide-to-curriculum-for-wales-2022> (Accessed on 21/10/2019).

Llywodraeth Cymru, Addysg Cymru. Education in Wales: Our national mission. Action plan 2017-21. <https://gov.wales/sites/default/files/publications/2018-03/education-in-wales-our-national-mission.pdf> (Accessed on 21/10/2019).

Mackenzie, No & Knipe, S. 'Research dilemmas: Paradigms, methods and methodology.' *Issues in Educational Research*, Vol 16, 2012

Nangle, Douglas W & Maisa- Warner, Carrie & Hansen, David J (2006) 'Bringing Evidence-Based Child Mental Health Services to the Schools: General Issues and Specific Populations.' *Education and treatment of Children*. Vol.29 , No.2. pp.165 – 172.

Nisbet J. and Watt, J. (1984) Case study. In J. Bell, T. Bush, A. Fox, J. Goodey and S. Goulding (eds) *Conducting Small-Scale Investigations in Educational Management*. London. Harper and Row, 79—92.

Orly Shipira – Lishchinsky (2011) 'Teachers' critical incidents: Ethical dilemmas in teaching practice.' *Teaching and Teacher Education*, 27 pp. 648 – 656

Professor Graham Donaldson. Successful Futures: Independent Review of Curriculum and Assessment Arrangements in Wales. OGL, Crown, 2015

Reinke, W. M., Stormont, M., Herman, K. C., Puri, R., & Goel, N. (2011). Supporting children's mental health in schools: Teacher perceptions of needs, roles, and barriers. *School Psychology Quarterly*, 26(1), 1-13.

Tripp, David (2012) *Critical Incidents in Teaching: Developing Professionalism Judgement*. London: Routledge

Vandell, D. L., Hembree, S. B. (1994). 'Peer social status and friendship.' *Merrill-Palmer Quarterly*, 40, 461-477.

Wood, P. and Smith (2016) *Educational Research*. Independent Thinking.

Yugar, J. M., & Shapiro, E. S. (2001). 'Elementary children's school friendships: a comparison of peer assessment methodologies.' *School Psychology Review*, 30, 568-586.